# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, C<br>Jeffrey M.Evans, R G Parry OBE, J A Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Swyddog Adnoddau Dynol (DB),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

• 27 Chwefror, 2015
• 9 Mawrth, 2015

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol**

Derbyniodd y Pwyllgor atborth gan Hay Group a'r Panel Cyfweld cyntaf. Yn dilyn rhoi sylw dyledus i argymhellion Hay a sgorio'r Panel Cyfweld, penderfynwyd gweld yr ymgeisydd a oedd yn cael ei argymell.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad, ac atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad ac yna atebodd gyfres o gwestiynau gan holl Aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyfweliad **PENDERFYNWYD yn unfrydol i benodi Mr. Scott Anthony Rowley, yn amodol ar dderbyn llythyrau geirda, i'r swydd uchod o ddyddiad i'w gytuno.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**